

# Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Partneriaeth Sgiliau

## Ffyniant drwy Bartneriaeth

### Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022 - 2025


Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Helo

Ni yw Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydym ni'n gweithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- sir Fynwy
- Casnewydd
- Torfaen
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**




# Ein cenhadaeth

## Nodi ac ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rydym ni'n gweithio gyda:

- Llywodraeth Cymru
- awdurdodau lleol
- cyflogwyr a chyrff cyflogwyr
- grwpiau clwstwr a fforymau
- Bargen Ddinesig CCR (Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)
- Darparwyr addysg a hyfforddiant
- Gyrfa Cymru
- FSB (Ffederasiwn Busnesau Bach)
- TUC Cymru (Cyngres Undebau Llafur)
- NTFW (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru)
- DWP (Adran Gwaith a Phensiynau)
- partneriaid eraill.

**Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi am ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.**



# Ein dull

## Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar 'Ffyniant drwy Bartneriaeth'

**Ffyniant** — bod yn llwyddiannus a thyfu mewn arian.
**Partneriaeth** — mae cydweithio ag eraill yn hollbwysig.

Rydym ni am i fusnesau, darparwyr addysg bellach ac uwch a darparwyr hyfforddiant ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyfan gydweithio.

Rydym ni am iddyn nhw rannu gwybodaeth a helpu pobl o bob oed i ddatblygu eu sgiliau, fel bod yr economi yn tyfu ac yn ffynnu.

## Pam mae hyn yn bwysig

**Mae byd gwaith yn newid!**
Mae Covid, Brexit, trawsnewid digidol a marchnadoedd y byd sy'n newid yn dod â heriau a chyfleoedd.

**Mae cyflogwyr yn dweud wrthym ni fod cael pobl sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau cywir i weithio mewn busnesau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn bwysig iawn.**

Mae'r cynllun hwn yn helpu hynny.



Mae'r cynllun hwn yn cysylltu polisïau Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Rhaglen Lywodraethu 2021-2026
- Cymru gryfach, decach, gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau
- Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net.

**Sero net** — lleihau a chydbwyso carbon.



# Cyfleoedd gyrfa

## Y prif sectorau yn ein rhanbarth

Mae'r sectorau hyn yn tyfu, yn esblygu ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n heconomi. Maen nhw'n rhoi cyfleoedd i'r gweithlu ddatblygu sgiliau, symud ar draws y sectorau a datblygu eu gyrfaoedd. Mae cyflogwyr angen llawer o wahanol bobl sydd â sgiliau gwahanol nawr ac yn y dyfodol.

**Sector** — ffordd o grwpio busnesau sy'n gwneud pethau tebyg.

### Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (AMM)

Mae'r sector hwn yn defnyddio arloesedd, prosesau newydd a thechnoleg i gynhyrchu cynnyrch.

Mae llawer o gyflogwyr uwch-dechnoleg o wahanol feintiau sy'n gweithio yn y maes:

- awyrofod
- modurol
- fferyllol
- gweithgynhyrchu bwyd
- peirianneg trafnidiaeth a mwy.

**Dywedodd 73%** o'r cyflogwyr fod dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau cywir yn her. Sgiliau fel datrys problemau, technoleg ddigidol, peirianneg arbenigol, gweithgynhyrchu clyfar ac ynni adnewyddadwy.

Er mwyn gwella hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo Prentisiaethau
- sicrhau bod lleoliadau profiad gwaith o ansawdd uchel
- a mwy.

### Lled-ddargludyddion Cyfansawdd

Mae'r rhain i'w cael mewn llawer o gynhyrchion fel ffonau clyfar, synwyryddion, a chyfathrebu ffibr optig. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer technoleg y dyfodol fel 5G a cherbydau di-yrrwr.

Mae'r angen am y rhain yn golygu ei fod yn sector sy'n tyfu ac mae llawer o gyflogwyr uwch-dechnoleg yn ein rhanbarth - gan gynnwys IQE, KLA a Microchip.

Dywedodd y cyflogwyr y gwnaethom ni siarad â nhw ei bod yn anodd dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau cywir ac mae angen cael gwell llwybrau addysg a hyfforddiant i mewn i'r gwaith.

Byddwn yn:

- sicrhau bod cymwysterau yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr i bobl
- sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth i newid gyrfaoedd a datblygu eu sgiliau
- a mwy.



## Sector adeiladu

Mae gan y sector adeiladu lawer o wahanol swyddi, ar lawer o wahanol lefelau o adeiladu 'ar y safle' i wasanaethau proffesiynol fel cynllunwyr, penseiri a syrfewyr.

Dywedodd cyflogwyr wrthym fod angen mwy ar y sector:

- bricwyr
- crefftau trydanol
- crefftau plymio
- crefftau gwresogi, awyru ac aerdymheru
- pobl sydd â sgiliau technoleg newydd
- pobl sydd â'r sgiliau i gefnogi'r daith i sero net.

Byddwn yn:

- sicrhau bod llwybrau clir i bobl symud ymlaen a datblygu sgiliau
- archwilio ffyrdd o ddatblygu rhaglenni dylunio ac adeiladu digidol
- a mwy.

## Sector creadigol

Mae'r sector Creadigol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn un o'r rhai mwyaf yn y DU. Mae'n cynnwys dros 1300 o gwmnïau cyfryngau gan gynnwys unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a chwmnïau mwy.

Mae hyn yn ychwanegu **£360 miliwn** at yr economi.

**Dywedodd 67%** o gyflogwyr fod dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau cywir yn anodd gan gynnwys:

- cyfarwyddwyr a rheolwyr prosiect
- awduron a golygyddion sgriptiau
- criw effeithiau arbennig - VFX/SFX
- sinematograffeg
- criw cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu
- hapchwarae, codio ac animeiddio.

Byddwn yn:

- ymgysylltu â chyflogwyr
- ehangu'r ystod o gyfleoedd dysgu bach a chyfleoedd datblygu gyrfa
- a mwy.

## Technoleg Ariannol

Mae'r sector Technoleg Ariannol yn defnyddio technoleg i newid gwasanaethau ariannol gan gynnwys y ffordd rydym yn trosglwyddo, benthyca, amddiffyn a rheoli arian. Mae'r sector hwn yn tyfu.

Mae bron i **40,000** o bobl yn gweithio ym maes Technoleg Ariannol yng Nghymru.

Mae'n werth tua **£8.5billion** i economi Cymru.

Dywedwyd wrthym fod bylchau sgiliau a phrinder staff. Mae'r sector angen pobl sydd â sgiliau mewn technoleg newydd gan gynnwys seiberddiogelwch, rhaglennu ac AI.

Byddwn yn:

- sicrhau bod lleoliadau profiad gwaith o ansawdd uchel
- sicrhau bod Prentisiaethau'n diwallu anghenion cyflogwyr
- a mwy.



## Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys

Mae'r sector hwn yn darparu nwyddau a gwasanaethau sy'n helpu bywyd bob dydd pobl. Mae'n darparu drwy fusnesau, elusennau, sefydliadau a gwasanaethau ac mae'n cynnwys:

- gweithwyr gofal, gofalwyr cartref a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol
- meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- athrawon a gweithwyr addysgu proffesiynol.

**Dywedodd 76%** o'r cyflogwyr fod dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau cywir yn her.

Nid oes digon o weithwyr i lenwi'r galw ac maen nhw angen i fwy o bobl gaffael y sgiliau hynny nawr i ateb y galw yn y dyfodol.

Byddwn yn:

- hyrwyddo Prentisiaethau a chyfleoedd gyrfa
- cefnogi pobl i gaffael Sgiliau Iaith Gymraeg
- a mwy.

## Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth

Y sector Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth yw'r trydydd cyflogwr mwyaf yng Nghymru.

Mae angen gweithwyr mwy medrus fel:

- cynorthwywyr gwerthu, cynorthwywyr manwerthu a gweithredwyr tiliau
- cogyddion, cynorthwywyr cegin ac arlwyo
- staff gwesty, bar a staff gweini.

**Dywedodd 67%** o gyflogwyr fod dod o hyd i staff medrus yn her fawr.

Mae cost cynyddol ynni wedi ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i'r arian i hyfforddi staff.

Byddwn yn:

- sicrhau bod hyfforddiant ôl-16 yn diwallu anghenion cyflogwyr
- sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn hyrwyddo pob opsiwn gyrfa
- a mwy.



**Nod y cynllun hwn yw sicrhau bod digon o bobl, gyda'r sgiliau cywir sydd eu hangen ar gyflogwyr nawr ac y bydd eu hangen yn y dyfodol.**

# Ein 7 Nod

## 1 Rydym ni am wella'r dewisiadau sydd gan bobl ifanc a'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn addysg ôl-16. Bydd hyn yn helpu pobl i gaffael y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ar draws y sectorau.

Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda cholegau a darparwyr hyfforddiant i gynllunio eu cwricwlwm fel bod pobl yn cael y sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer gwaith.

**Byddwn ni yn:**

- sicrhau y gellir ariannu mwy o gyrsiau a chymwysterau drwy'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol
- sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion cyflogwyr
- sicrhau bod digon o bobl yn ennill sgiliau a doniau ar gyfer y dyfodol — rydym ni'n hyrwyddo modelau'r Academi a Bootcamp ar gyfer hyn
- sicrhau bod systemau addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ymuno ac yn cydweithio yn well fel bod llai o fylchau.

## 2 Rydym ni eisiau mwy o Brentisiaethau lefel uwch.

Erbyn 2026, mae Llywodraeth Cymru am greu **125,000** yn fwy o Brentisiaethau fel y gall pobl o bob oed ennill sgiliau a chael swyddi â chyflogau gwell.

**Byddwn ni yn:**

- defnyddio tystiolaeth i wella'r fframwaith Prentisiaeth ar bob lefel
- gweithio i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dilyn Prentisiaethau, gan gynnwys ar Lefel Uwch a Lefel Gradd
- gweithio i gynyddu nifer yr hyfforddwyr a'r aseswyr mewn dysgu seiliedig ar waith.



## 3 Rydym ni am weithio gydag eraill i gefnogi pobl yn ôl i’r gwaith.

Mae angen mwy o help ar rai pobl nag eraill i ennill sgiliau a mynd i fyd gwaith. Mae prosiectau wedi bod yn llwyddiannus yn helpu pobl i gael gwaith ar draws y sectorau.

**Byddwn ni yn:**

- sicrhau bod cyllid, fel y Gronfa Ffyniant Cyffredin, yn cael ei ddefnyddio i helpu pobl i gaffael sgiliau a dod â chyfleoedd gwaith
- sicrhau bod pobl ifanc (dan 25) yn cael cymorth i ddechrau gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth
- casglu gwybodaeth am y farchnad lafur a’i defnyddio i ddatblygu rhaglenni a all helpu pobl sydd ei hangen fwyaf.

## 4 Rydym ni am hyrwyddo technoleg ddigidol a chreu gweithlu sydd â’r sgiliau digidol sydd eu hangen.

Gall sgiliau digidol drawsnewid busnes, bywydau pobl a gwaith. Rydym ni eisoes wedi hyrwyddo hyfforddiant, datblygiadau newydd a denu buddsoddiad i’r rhanbarth. Ond rydym ni am wneud mwy.

**Byddwn ni yn:**

- parhau i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) i sicrhau bod pobl yn caffael y cymwysterau galwedigaethol (gwaith) y mae cyflogwyr eu hangen
- hyrwyddo hyfforddiant y gellir ei ariannu drwy’r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol
- annog mwy o bobl i gymryd Prentisiaethau gan gynnwys ar Lefel Gradd.



## 5 Rydym ni am gefnogi pobl i gaffael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi carbon isel.

**Economi carbon isel** — cynhyrchion a swyddi sy'n lleihau carbon ac yn helpu'r amgylchedd.

**Byddwn ni yn:**

- cefnogi cyflogwyr i ddod yn garbon isel a sicrhau bod gan bobl y cymwysterau a'r sgiliau maen nhw eu hangen i'w helpu i wneud hyn
- lleihau'r rhwystrau a dod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu prentisiaethau sy'n cyrraedd ein nodau ar gyfer sero net
- gweithio gydag ystod eang o gyflogwyr.

## 6 Rydym ni am weithio gyda Cymwysterau Cymru fel bod cymwysterau wedi'u hadnewyddu yn diwallu anghenion cyflogwyr ar draws pob sector.

Rydym ni eisoes wedi bod yn gweithio gyda nhw i adnewyddu cymwysterau o fewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch, a Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo.

**Byddwn ni yn:**

- parhau i weithio gyda Cymwysterau Cymru
- gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod eu staff yn gallu cyflawni'r cymwysterau sydd wedi'u hadnewyddu a'u gofynion
- sicrhau bod cymwysterau a Chwricwlwm Cymru yn helpu pobl ifanc i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ar draws y sectorau.



## 7 Rydym ni eisiau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i hyrwyddo anghenion cyflogwyr a sectorau ledled y rhanbarth.

Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i wella gwybodaeth a chyngor ar draws y sectorau.

**Byddwn ni yn:**

- parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru
- hyrwyddo prosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â gyrfa fel Ymrwymiad Caerdydd sy'n cynnig profiadau, cyfleoedd a sgiliau i bobl
- cefnogi busnesau ar draws y sectorau i ymgysylltu ag ysgolion fel bod pobl ifanc yn gwybod mwy am fywyd gwaith, gyrfaoedd a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.



# Diolch am ddarllen

I gael gwybod mwy amdanom ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud, ewch i:


www.ccrsp.co.uk/cym

RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk

Cardiff Capital Region Skills Partnership

CCR_RSP